monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 7 Medi 2016**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Gwener, 16 Medi 2016**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir G. Burrows, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, E. Hacket Pain, P.A.D. Hobson and P. Murphy

**AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir

**SWYDDOGION YN BRESENNOL**

| Eitem Rhif | Title | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | Dyrannu Cyllid A106, Magwyr a Gwndy | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Gohirio'r eitem. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3b** | Adran 106 Cyfraniadau Addysg - Tir yn Nhŷ Mawr a Cae Meldon, Gilwern | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Gohirio'r eitem. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3c** | Dull Cyllido A106 Tîm Tref Cil-y-coed | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Mae'r Cabinet yn cytuno i ddyrannu £41,000 o gyllido S106 i Dîm Tref Cil-y-Coed i gael ei dalu mewn rhandaliadau misol er mwyn galluogi'r tîm i gyflwyno'r gweithgareddau a'r canlyniadau a nodwyd yng nghynllun gweithredu Tîm y Dref.<br><br>Bydd Pwyllgor Ardal Glan Hafren yn cael y dasg o adolygu perfformiad Tîm Tref Cil-y-Coed yn erbyn y gwariant a'r canlyniadau a nodir yng nghynllun gweithio Tîm y Dref. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3d** | Ailstrwythuro Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod aelodau'n cymeradwyo'r ailstrwythuro arfaethedig o'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3e** | Effeithlonrwydd Gwasanaethau Cyngor Diweddariad Chwarter 1 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i helpu gyda'u monitro a gwerthuso parhaus o effeithlonrwydd gwasanaethau ac i ba raddau y maen nhw'n cyfrannu at flaenoriaethau'r cyngor o addysgu plant, cefnogaeth i bobl agored i niwed, menter a chreu swyddi a chynnal gwasanaethau lleol hygyrch.<br><br>Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i adnabod unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i yrru gwelliannau, gan sicrhau bod gwasanaethau mor effeithlon ac effeithiol â phosib yng nghyd-destun adnoddau cyfredol.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo targedau 2016/17 ar gyfer y dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol a osodwyd yn Atodiad 2.<br><br>Bod swyddogion yn adolygu dangosfwrdd y cabinet i adlewyrchu newidiadau i ofynion dangosyddion perfformiad a bennwyd mewn deddfwriaeth ddiweddar, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a materion perfformiad a nodwyd fel rhan o raglen waith Sir Fynwy y Dyfodol wrth iddynt gael eu hadnabod. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3f** | Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Addasu cyfansoddiad y Cyngor i roi awdurdod dirprwyedig i Swyddogion ar gyfer pwerau gorfodi a gyflwynwyd dan y Ddeddf fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1. Y Swyddogion yw Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff a'r Strydoedd a'r Pennaeth Llywodraethu, Ymrwymo a Gwella.<br><br>Mabwysiadu'r ymagwedd gyffredinol at gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig dan ddarpariaethau'r Ddeddf, fel yr amlinellir ym mholisi gorfodaeth cyfredol yr Awdurdod ar faeddu gan gŵn / sbwriel yn Atodiad 2.<br><br>Cytuno i'r ffioedd gorfodaeth ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig fel yr amlinellwyd yn Atodiad 3 |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3g** | Argymhellion a Chanlyniadau Pwyllgorau Dethol (Canol Mawrth i Fedi 2016) | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan Bwyllgorau Dethol y Cyngor tuag at ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau.<br><br>Bod Aelodau'r Cabinet yn ymgyfarwyddo'u hunain gyda chanlyniadau'r Pwyllgorau Dethol er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb yn briodol i argymhellion a cheisiadau a wnaed gan y Pwyllgorau Dethol, yn unol â Phrotocol Craffu a Gweithredu'r y Cyngor. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |